

Meini Prawf Cymhwysedd

- Rhaid gallu cadarnhau eich bod yn fyfyrwr Cartref neu'r UE at ddibenion talu ffioedd (mae'r wybodaeth hon yn y llythyr sy'n cynnig lle i chi).*
- Dim ond rhaglenni amser llawn a rhan-amser ôl-raddedig cyflawn a addysgir sy'n arwain at radd feistr sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Meistr Prifysgol Caerdydd. Nid yw'n cynnwys:
 - Cam meistr y rhaglen yn unig
 - Rhaglenni dysgu o bell sy'n arwain at radd meistr
 - Cysiau Tystysgrifau a Diplomâu Ôl-raddedig.
- I gael eich ystyried ar gyfer ysgoloriaeth, rhaid llenwi pob adran yn y ffurflen gais a chyflwyno datganiad ategol yn unol â'r cyfarwyddiadau. Ni fyddwn yn ystyried ffurflenni anghyflawn.
- Ystyrir ceisiadau hyd at ddau ddyddiad cau: 15 Mawrth 2017a05 Gorffennaf 2017.
- Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 13.00 (GMT) ar y dyddiad cau. Bydd angen i chi gyflwyno cais i astudio rhaglen gymwys erbyn yr un dyddiad hefyd.**
- Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau cyntaf tan ar ôl yr ail ddyddiad cau. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl yr ail ddyddiad cau
- Bydd nifer yr ysgoloriaethau sy'n weddill ar gyfer yr ail ddyddiad cau yn dibynnu ar ansawdd a nifer y ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau cyntaf. Gall rhai colegau, neu bob un ohonynt, gyflwyno pob un o'r ysgoloriaethau sydd ar gael ganddynt ar ôl y dyddiad cau cyntaf.
- Dim ond y rhai sydd wedi derbyn cynnig diamod yn gadarn erbyn 17.00 (GMT) ar 11 Awst fydd yn cael ysgoloriaethau. **Ni** fyddwn yn ystyried ceisiadau amodol wedi hynny.
- Rhaid derbyn ysgoloriaethau ymhen wythnos ar ôl cael hysbysiad o gynnig ffurfiol. Byddwn yn ailddyrannu ysgoloriaethau na chaiff eu derbyn.
- Rhaid i'r ysgoloriaethau gael eu defnyddio wrth ddechrau ym mlwyddyn academiaidd 2017/8 yn unig ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer dechrau yn 2018/19 na thu hwnt i hynny. Os ydych yn penderfynu oedi cyn cychwyn yn y Brifysgol ar ôl ennill ysgoloriaeth, byddwch yn colli'ch ysgoloriaeth a bydd yn rhaid i chi gyflwyno cais newydd y flwyddyn ganlynol. Ni all y rhai sydd eisoes yn astudio rhaglen ôl-raddedig ei defnyddio ychwaith.
- Mae'r ysgoloriaethau hyn ar gyfer myfyrwyr sy'n ariannu eu hunain yn unig. Os ydych yn cael eich ariannu'n **llawn** (gan gynnwys naill ai ffioedd dysgu neu ffioedd dysgu a chostau byw) gan gorff noddi (megis Llywodraeth eich mamwlad, elusen neu sefydliad preifat), nid ydych yn gymwys.
- Os byddwch yn rhoi'r gorau i astudio, neu os gofynnir i chi wneud hynny, cyn i chi gwblhau'ch gradd, neu os nad ydych yn cwblhau'ch gradd o Brifysgol Caerdydd, bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhan o'r arian neu'r holl arian a gawsoch o'r Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Meistr ar sail pro rata.

* Os aser eich bod yn gymwys i dalu ffioedd Tramor o ganlyniad i ymholiad ynghylch ffioedd, caiff statws eich ffioedd ei newid i Dramor ac ni fyddwch yn gymwys i gael Ysgoloriaethau Ôl-raddedig.

** Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o amser i ni brosesu eich cais ac i chi allu cysylltu â'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr pe byddai unrhyw broblem yn codi o ran cyflwyno'r cais. Gall gymryd hyd at 48 awr rhwng cyflwyno cais am raglen a gallu defnyddio Porth Cyflwyno Cais Ar-lein SIMS. Ffôn: +44 (0)2920 879999. Mae Swyddfa Derbyn Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ar agor 9 tan 5, ddydd Llun i ddydd Gwener (GMT).

- Gyda rhaglenni amser llawn, dim ond ar gyfer blwyddyn gyntaf eich rhaglen y mae'r ysgoloriaeth ar gael. Os ydych yn astudio rhaglen amser llawn sy'n para dros flwyddyn, ni chewch arian o'r ysgoloriaeth hon neu'r ysgoloriaeth ddilynol ar gyfer y blynyddoedd ychwanegol.
- Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys i gyflwyno cais am yr ysgoloriaethau hyn, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at pgscholarships@caerdydd.ac.uk i gael cyngor.